

Mehefin 2020



Cyrraedd y nod

Yn dilyn ein hymgyngoriad (a ddaeth i ben y mis diwethaf), rydym wedi penderfynu sut y bydd graddau TGAU a Safon Uwch yn cael eu cyfrifo yr haf hwn, ynghyd â'r gofynion ar gyfer y broses apelio.

Ymatebodd dros 4,000 o bobl i'n hymgyngoriad mewn ychydig dros bythefnos. Ar ôl ystyried yn ofalus, rydym bellach wedi cyhoeddi ein hadroddiad ar y penderfyniadau ar y nodau a fydd yn sail i'r model safoni ystadegol y bydd CBAC yn ei ddefnyddio ar gyfer cyhoeddi graddau'r haf hwn.

Bydd y system yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin yn deg, ac y bydd y cymwysterau a ddyfernir eleni yr un mor gadarn ac o'r un gwerth â'r rhai a ddyfernir mewn unrhyw flwyddyn arall.

Gallwch ddarllen y manylion llawn, gan gynnwys ein penderfyniadau a chrynodeb cynhwysfawr o'n canfyddiadau **yma**. Byddwn yn cyhoeddi'r newyddion diweddaraf ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol, felly cadwch lygad ar y rhain.

Proses apelio haf 2020



Edrych ymlaen

Er bod COVID-19 ar flaen ein meddyliau ar hyn o bryd, mae ein gwaith arall yn parhau. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd i Gymru.

Gwnaethom ymgynghori yn gynharach eleni, pan wnaethom nodi ein gweledigaeth ar gyfer cymwysterau'r dyfodol. Cynigiwyd set o egwyddorion arweiniol a ddylai lywio'r ystod o gymwysterau i bobl ifanc 16 oed yng Nghymru yn y dyfodol. Fe ofynnwn ni hefyd i ymatebwyr am beth a ddylai ddigwydd gyda chymwysterau TGAU a'r Dystysgrif Her Sgiliau.

Rydym bellach wedi cyhoeddi canlyniadau ein hymgyngoriad Cymwys ar gyfer y Dyfodol, y gallwch eu darllen ar ein **gwefan**, lle gallwch hefyd ddod o hyd i fanylion am y cam nesaf yn ein gwaith.

Drwy gydol y broses, byddwn yn parhau i ymgysylltu â chi wrth i ni ddatblygu ein cynigion.



Adeiladu'r dyfodol

Gwylwch ein fideo rhagarweiniol yma

Mae adran newydd ar ein gwefan lle gallwch ddod o hyd i'r holl wybodaeth am y **cymwysterau adeiladu a'r amgylchedd** adeiledig newydd sy'n cael eu datblygu mewn partneriaeth â chyrrff dyfarnu. Yma, ceir blogiau, astudiaethau achos ac adnoddau fel fideos a thafleini, yn ogystal â dolenni i wefan newydd **Sgiliau i Gymru**.



Recriwtio

Mae gennym sawl cyfle cyffrous ar ein **gwefan**. Dyma'r swyddi gwag sydd gennym ar hyn o bryd:

Rheolwr Polisi Rheoleiddio

Band 4 – Ystod Cyflog £38,355 - £45,850 y flwyddyn
Yn cau 12pm, ddydd Mercher 8 Gorffennaf 2020

Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Band 6 - £62,320 - £72,905
Yn cau 10am, ddydd Llun 13 Gorffennaf 2020

Bwletin Ystadegol Cymwysterau Galwedigaethol ac Eraill: Chwarter 1 (Ionawr – Mawrth) 2020 i Gymru

Rydym wedi cyhoeddi'r ffigurau ynghylch ardystiadau cymwysterau galwedigaethol ac eraill i Gymru ar gyfer y chwarter diwethaf. Dyma rai o'r pwyntiau allweddol:

- Dyfarnwyd 45,155 o dystysgrifau – sef gostyngiad o 10.7% o'i gymharu â'r un chwarter yn 2019.
- Lefelau 2 a 3 yw'r lefelau cymhwyster a ddyfarnir fwyaf o hyd, gan gyfrif am 72.2% o'r holl dystysgrifau yn y chwarter hwn.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma.



Ein blogiau diweddaraf

Dod o hyd i atebion i'r her fawr hon – gan Philip Blaker, Prif Weithredwr

Cynllunio'r llwybr i TGAU, UG a Safon Uwch yr haf nesaf – gan Kerry Davies, Pennaeth Safonau

Effaith COVID-19 ar dderbyniadau prifysgolion – gan Robert Evans, Rheolwr Ymgysylltu Strategol

Blwyddyn 10, Blwyddyn 12 – rydym yn eich clywed – gan Kate Stokes Davies, Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu Satregol

To subscribe to our mailing list for the Slate, please click [here](#).

I danysgrifio i'n rhestr bost ar gyfer Y Llechen, cliciwch [yma](#).

The Slate: Qualifications Wales's monthly newsletter for the education sector
Y Llechen: cylchlythyr Cymwysterau Cymru i'r sector addysg

You can follow us on social media for the latest news on our work:
Gallwch chi ein dilyn ar gyfryngau cymdeithasol i weld y newyddion diweddaraf am ein gwaith:



Copyright © 2020 Qualifications Wales All rights reserved.

Contact us:

comms@qualificationswales.org

Click [here](#) to unsubscribe or to change your Subscription Preferences.